cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2026/27

# PR1 Cais am Gyllid i Fyfyrwyr gan Fyfyrwyr sy'n Parhau

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais. Gallwch hefyd ymgeisio ar-lein ar:
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

| | |
|---|---|
| Eich enw(au) cyntaf | |
| Eich cyfenw | |

Dylech lenwi'r ffurflen hon os ydych yn parhau i astudio un o'r cyrsiau canlynol:

- cwrs addysg uwch amser llawn neu ryngosod;
- cwrs gradd neu ddiploma mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd a'ch bod yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth **yn seiliedig ar incwm** gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), yr Adran Iechyd (AI) neu Student Awards Agency Scotland (SAAS), ac eithrio'r fwrsariaeth gwaith cymdeithasol.
- cwrs dysgu o bell amser llawn, am resymau nad ydynt yn ymwneud ag anabledd, a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2012 (Ni allwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru); neu
- cwrs Addysg Cychwynnol Athrawon (ACA).

**Rydym wedi darparu nodiadau canllaw i'ch cynorthwyo felly cyfeiriwch atynt bob tro y gwelwch yr eicon hwn.** n
**Bydd rhaid ichi anfon tystiolaeth gyda'ch cais ble bynnag y gwelwch yr eicon hwn.** t
**Mae manylion y dystiolaeth y mae ei hangen arnom ar gael yn y nodiadau canllaw.**

**Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylech ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd ar dudalen 16 y nodiadau cysylltiedig.**

**Efallai y byddwch yn gymwys am fwrsariaeth neu ysgoloriaeth. Er mwyn i brifysgol neu goleg allu pennu a thalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth y bydd gennych hawl iddo, byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch manylion personol, ariannol a chwrs yn ogystal â gwybodaeth am eich cymhwyster am gyllid i fyfyrwyr gyda nhw. Am ragor o wybodaeth am hyn, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd.**
**Cysylltwch â'r brifysgol neu goleg os ydych chi angen rhagor o wybodaeth ynghylch eu bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.**

**Dyddiad Cau**

I sicrhau eich bod yn cael eich taliad cyntaf ar ddechrau'r tymor, rhaid ichi ddychwelyd y ffurflen hon a'r holl dystiolaeth y mae ei hangen arnom erbyn **26 Mehefin 2026.**

Fe wnawn ein gorau glas i brosesu eich cais cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, os bydd y dyddiad cau wedi mynd heibio, efallai na fydd eich taliad cyntaf yn barod erbyn dechrau'r tymor. Os dychwelir eich ffurflen gais fwy na 9 mis cyn cychwyn eich blwyddyn academaidd, ni chaiff ei phrosesu, ac efallai y collwch eich hawl llawn i gael cyllid myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.

# Adran 1 - cyllid sydd ar gael

**Gall pob myfyriwr wneud cais am y cyllid myfyrwyr canlynol trwy lenwi'r ffurflen hon:**

- Benthyciad Cynhaliaeth
- Benthyciad Ffioedd Dysgu
- Lwfans Dysgu i Rieni
- Grant Oedolion Dibynnol
- Grant Teithio
- Lwfans Myfyrwyr Anabl
- Grant Gofal Plant
- Grant Teithio
- Grant Cymorth Arbennig
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

**Os cychwynnoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018 efallai y byddwch yn gymwys am Grant Ffioedd.**

Bydd eich swm Ffioedd Dysgu yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch prifysgol neu eich coleg mewn tri rhandaliad. Byddwch yn atebol am eich Benthyciad Ffioedd Dysgu o ddiwrnod cyntaf bob tymor. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y telir eich Benthyciad Ffioedd Dysgu a sut mae atebolrwydd wedi newid, darllenwch dudalen 9 y nodiadau canllaw.

Gallwch hefyd weld gwybodaeth fanylach am yr hyn sydd ar gael a'r hyn y gallech fod yn gymwys i'w gael trwy fynd i: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

**Beth os bydd gennyf unrhyw gwestiynau?**

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau gallwch:

- droi at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu
- ein ffonio ni ar **0300 200 4050**

**Ble ddylwn i anfon fy ffurflen?**

Dychwelwch y ffurflen hon at: **Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

**Cofiwch dalu'r tâl post cywir.**

**Gallwch wneud cais trwy ddilyn 5 cam hawdd**

(Yn ddibynnol ar eich amgylchiadau, efallai na fydd angen i chi gwblhau'r holl gamau)

| | |
|---|---|
| Cam **1** | **Ar gyfer pob myfyriwr**<br>• Dylech lenwi adrannau 2-4.<br>• Cofiwch, os byddwch yn gwneud cais am fenthyciad, bydd rhaid ein hysbysu faint ydych yn dymuno ei gael trwy lenwi'r adran Cais am Fenthyciad ar dudalen 12.<br>• **Ni** fydd angen i chi lenwi adran 4 os byddwch yn gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a/neu Grant Ffioedd **yn unig.** |

! Os ydych yn dymuno gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Ffioedd neu Fenthyciad Cynhaliaeth ar gyfradd is **yn unig**, ewch yn uniongyrchol i **Gam 5**. Os gwnaethoch ddechrau cwrs dysgu o bell amser llawn ar neu ar ôl 1 Medi 2012 (am resymau nad ydynt yn ymwneud ag anabledd) ni allwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| Cam **2** | **Ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr yn seiliedig ar incwm eu cartref**<br>• Dylech lenwi adrannau 5 a 6.<br>• Os ydych chi'n gymwys i dderbyn Cymorth Arbennig, cwblhewch adran 7. |
| Cam **3** | **Ar gyfer myfyrwyr y mae ganddynt unrhyw ddibynyddion**<br>• Dylech lenwi adran 8.<br>• Dylech lenwi'r adran hon os oes gennych unrhyw blant neu oedolion dibynnol ac os hoffech wneud cais am gymorth ariannol mewn perthynas â hwy. |

! Os ydych yn fyfyriwr annibynnol sengl, ewch i **Gam 5**.

| | |
|---|---|
| Cam **4** | **Ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr ar sail incwm eu cartref**<br>• Dylech lenwi adran 9.<br>• Yn ddibynnol ar eich atebion yn adran 9, efallai bydd angen i chi ofyn i'ch **rhiant (rheini) neu'ch partner** ddarparu manylion eu hincwm yn adran 10, er mwyn i ni allu cyfrifo'ch hawl llawn i gael cyllid myfyrwyr. |
| Cam **5** | **Ar gyfer pob myfyriwr**<br>• Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen a llofnodi'r **Amodau a Thelerau ar dudalennau 19 ac 20**. Os gofynnoch i rywun lenwi adran 10, dylech sicrhau eu bod wedi llofnodi **eu datganiadau ar dudalen 29.** |

# Adran 1 - cyllid sydd ar gael parhad

**Cyllid i fyfyrwyr arall sydd ar gael**

## Grant Gofal Plant (CCG)

Os hoffech wneud cais am CCG, bydd angen i chi:
• gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon a
• cwblhau Cais am Help gyda Costau Gofal Plant (CCG1).

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen CCG1 o: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Ticiwch y blwch isod os ydych chi am i ni anfon CCG1 i chi.

☐ Anfonwch ffurflen CCG1 i mi

## Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

**Os ydych yn derbyn DSA eisoes**
Os ydych wedi gwneud cais llwyddiannus am DSA yn ystod eich cwrs a'ch bod yn awyddus iddo barhau, ticiwch Ydw isod i wneud cais eto. Gallwn barhau gyda'ch cymorth.

Os ydych wedi derbyn diagnosis newydd neu fod eich cyflwr wedi newid, gallwn ddiweddaru eich cymorth DSA. Gallwch ddweud wrthym drwy uwchlwytho tystiolaeth newydd i'ch cyfrif neu gysylltu â ni ar 0300 200 4050.

**Cyfarpar presennol**
Os oes gennych gyfarpar drwy DSA, mae dan warantiad ar gyfer ei atgyweirio neu ei amnewid. Bydd y gwarantiad yn ddilys tra byddwch yn derbyn cymorth DSA. Os bydd eich cymorth DSA yn dod i ben, yna efallai y bydd y gwarantiad yn dod i ben hefyd.

Ydych chi angen i'ch DSA barhau?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**Os nad oes gennych DSA ac yn awyddus i wneud cais amdano**
Os ydych yn awyddus i wneud cais am DSA bydd angen i chi:
• gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon a
• chwblhau Ffurflen Gais Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA cryno).

Gallwch lawrlwytho ffurflen gryno DSA yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
Ticiwch y bocs isod os hoffech i ni anfon ffurflen gryno DSA atoch.

☐ Anfonwch ffurflen gryno DSA ataf

# Adran 2 - manylion personol

Cyfeirnod Cwsmer ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

## Manylion personol

a Teitl ☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Unrhyw enwau blaenorol a ddefnyddiwyd i'ch adnabod

Rhyw ☐ Gwryw ☐ Benyw

Dyddiad geni — Dydd ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

## Manylion cyswllt

b Anfonir yr holl ohebiaeth a gyhoeddwn i'r cyfeiriad hwn. Gallwch ddiweddaru'ch cyfeiriad ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif arlein neu trwy'n ffonio. n

**Cyfeiriad cyswllt**

Cod post

Rhif ffôn cyswllt

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad E-bost

Pa iaith ydych yn dymuno i ni ei defnyddio yn y llythyrau y byddwn yn eu hanfon atoch?

☐ Saesneg
☐ Cymraeg

# Adran 2 - manylion personol

Parhad

## Statws perthynas presennol

c1 A yw eich perthynas wedi newid ers eich cais diwethaf? ☐ Do ☐ Naddo

os 'Naddo' **ewch i d**

Os do, dywedwch wrthym y dyddiad y newidiodd statws eich perthynas

Dydd | Mis | Blwyddyn

☐☐ ☐☐ ☐☐☐☐

c2 Dewiswch y statws perthynas sy'n berthnasol i chi ar hyn o bryd.

- ☐ Sengl
- ☐ Yn byw gyda phartner n
- ☐ Yn briod/mewn partneriaeth sifil
- ☐ Wedi gwahanu t
- ☐ Wedi ysgaru/terfynu partneriaeth sifil t
- ☐ Gweddw/partner sifil goroesol

d

## Lluoedd Arfog

A ydych chi'n aelod o'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru? n t ☐ **Ydw** ☐ **Nac ydw**

A ydych chi'n aelod o deulu rhywun sydd yn y Lluoedd yn y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru (er enghraifft: cymar neu blentyn)? n t ☐ **Ydw** ☐ **Nac ydw**

# Adran 3 - am eich cwrs a'ch prifysgolneu goleg

## Manylion y brifysgol neu goleg

a Enw a chyfeiriad y brifysgol neu goleg

Cod post

Rhif adnabod personol UCAS

Cod UCAS y brifysgol neu goleg

Cod campws UCAS (os yn berthnasol)

## Manylion y cwrs

b A fyddwch yn astudio yn yr union yr un brifysgol neu goleg ac yn dilyn yr union yr un cwrs ag yr oeddech ym mlwyddyn academaidd 2025/26?

**Byddaf** ☐ **Na fyddaf** ☐

Enw'r cwrs

Os ydych yn dilyn cwrs astudiaethau cyfunol neu fodiwlaidd, rhestrwch yr holl bynciau y byddwch yn eu hastudio.

Cod UCAS y cwrs

Y cymhwyster yr ydych yn disgwyl ei gael (er enghraifft, BSc Ffiseg)

Dyddiad cychwyn y cwrs — **Mis** **Blwyddyn**

Dyddiad gorffen y cwrs — **Mis** **Blwyddyn**

Hyd y cwrs (blynyddoedd)

Blwyddyn y cwrs

- ☐ Sylfaen
- ☐ Blwyddyn gyntaf
- ☐ Ail flwyddyn
- ☐ Trydedd flwyddyn
- ☐ Pedwaredd flwyddyn

Arall (nodwch y manylion)

Ai dyma flwyddyn olaf eich cwrs? ☐ **Ie** ☐ **Na**

Ffi dysgu **lawn** ar gyfer y flwyddyn academaidd hon £

# Adran 3 - am eich cwrs a'ch prifysgolneu goleg

Parhad

Os yw'r cwrs wedi'i ryddfreinio i brifysgol neu goleg arall, nodwch eu cyfeiriad isod

Cod post

c **Math o gwrs** (ticiwch un blwch):

- ☐ Israddedig amser llawn
- ☐ Ôl-raddedig amser llawn Addysg Cychwynnol Athrawon (ACA)
- ☐ Gradd sylfaen amser llawn
- ☐ Llawn amser sy'n cynnwys lleoliad (cwrs rhyngosod)
- ☐ Dysgu o bell amser llawn n t

A wnaethoch chi gychwyn eich cwrs cyn 1 Awst 2018 ac a oes gennych chi anabledd sy'n eich atal rhag mynychu eichprifysgol/ coleg yn bersonol? **Oes** ☐ **Nac oes** ☐

d A ydych yn gymwys i wneud cais am unrhyw fwrsariaeth, ac eithrio bwrsariaeth gwaith cymdeithasol, yn y flwyddyn academaidd hon gan unrhyw un o'r canlynol? n t

- Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Adran Iechyd (DoH)
- Student Awards Agency Scotland (SAAS)

☐ **Ydw** ☐ **Nac ydw**

Os 'Ydw', a yw'r fwrsariaeth:

- ☐ Yn seiliedig ar asesiad incwm
- ☐ Heb ei seilio ar asesiad incwm

## Manylion y tymhorau

e Ble fyddwch chi'n byw yn ystod y flwyddyn academaidd hon?

| | | |
|---|---|---|
| Tymor 1 | ☐ Byw gyda rhiant(rhieni) | ☐ Rhywle arall neu yn fy nghartref fy hun |
| Tymor 2 | ☐ Byw gyda rhiant(rhieni) | ☐ Rhywle arall neu yn fy nghartref fy hun |
| Tymor 3 | ☐ Byw gyda rhiant(rhieni) | ☐ Rhywle arall neu yn fy nghartref fy hun |

# Adran 3 - am eich cwrs a'ch prifysgolneu goleg

Parhad

f Ble byddwch chi'n treulio'r rhan fwyaf o'ch amser yn ystod y flwyddyn academaidd hon? n

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tymor 1 | ☐ Mewn prifysgol neu goleg | ☐ Yn astudio dramor | ☐ Ar leoliad gwaith |
| Tymor 2 | ☐ Mewn prifysgol neu goleg | ☐ Yn astudio dramor | ☐ Ar leoliad gwaith |
| Tymor 3 | ☐ Mewn prifysgol neu goleg | ☐ Yn astudio dramor | ☐ Ar leoliad gwaith |

os ydych wedi ticio 'Prifysgol neu goleg' ar gyfer y tri thymor, **ewch i adran 4**

g1 A fyddwch chi'n cyflawni lleoliad yn rhan o'r rhaglen gyfnewid Erasmus+?

☐ **Ydw** ☐ **Nac ydw**

g2 A fydd y myfyriwr yn ymgymryd â lleoliad fel rhan o Gynllun Turing neu Taith? n

☐ **Ydw** ☐ **Nac ydw**

Os 'Ydw' a/neu byddwch yn astudio dramor **ewch i adran 4**

# Adran 3 - am eich cwrs a'ch prifysgolneu goleg

Parhad

## Manylion y lleoliad

h Ble bydd eich lleoliad?

☐ Mewn gwlad dramor ☐ Yn y Deyrnas Unedig ☐ Ddim yn gwybod n

Enw a chyfeiriad y lleoliad

Cod post

Yw'r lleoliad: ☐ Gyda thâl ☐ yn ddi-dâl

Os 'yn ddi-dâl', ticiwch pa fath:

☐ lleoliad mewn: ysbyty yn y DU, Labordy Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus yn y DU neu gydag ymddiriedolaeth gofal sylfaenol yn y DU;

☐ lleoliad mewn Awdurdod Iechyd Arbennig y DU, Bwrdd Comisiynu y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, y Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Lleol, Bwrdd Iechyd, Bwrdd Iechyd Arbennig neu Fwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

☐ Awdurdod Iechyd Arbennig y DU, NHS England neu fwrdd gofal integredig, Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, yr Asiantaeth Ranbarthol dros Iechyd Cyhoeddus a Llesiant Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Lleol, Bwrdd Iechyd, Bwrdd Iechyd Arbennig neu Fwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol;

☐ yn sector carchardai neu wasanaeth prawf y DU neu wasanaethau ôl-ofal;

☐ gwaith ymchwil di-dâl mewn sefydliad yn y DU neu mewn gwlad dramor; neu

☐ lleoliad di-dâl nas rhestrwyd uchod. n

# Adran 4 - manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU

**Dim ond os ydych yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr a fydd yn cael ei dalu i mewn i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol y bydd angen i chi roi eich manylion banc i ni.**

**Nid oes rhaid i chi ddarparu manylion eich cyfrif banc os ydych yn gwneud cais am gymorth ffioedd dysgu yn unig oherwydd telir hyn yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg, nid i chi.**

**Rhaid i'r cyfrif hwn fod yn eich enw chi ac mae'n rhaid ei fod yn gallu derbyn credydau uniongyrchol.**

Sylwch y bydd manylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu anghyflawn neu anghywir yn achosi oedi gyda thaliadau eich Benthyciad Cynhaliaeth, Bwrsariaeth (os yw'n berthnasol) neu unrhyw daliadau grantiau.

Cod didoli ☐☐-☐☐-☐☐

Rhif y cyfrif ☐☐☐☐☐☐☐☐

Rhif rhôl cymdeithas adeiladu (os yw'n berthnasol) ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

# Adran ceisiadau am fenthyciadau

**Os ydych yn gwneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth, Benthyciad Ffioedd Dysgu neu'r ddau, a fyddech gystal â llenwi'r adran hon gan nodi faint yr ydych yn dymuno gwneud cais amdano.**

Rhif Yswiriant Gwladol ☐☐-☐☐☐☐☐☐-☐

Byddwn yn rhannu'r Rhif Yswiriant Gwladol a roddwch gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gadarnhau ei fod yn ddilys, a gyda Chyllid a Thollau EM i'n galluogi i gasglu eich ad-daliadau.

## Benthyciad Cynhaliaeth

Swm y Benthyciad Cynhaliaeth yr hoffech wneud cais amdano:

☐ Ticiwch y blwch os hoffech wneud cais am yr uchafswm sydd ar gael i chi.

Os hoffech wneud cais am lai na'r uchafswm sydd ar gael i chi, nodwch y swm os gwelwch yn dda £

## Benthyciad Ffioedd Dysgu

Dylech holi faint mae eich prifysgol neu goleg yn ei godi cyn gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu. I weld faint o arian y gallwch ymgeisio amdano, trowch at:
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Swm y Benthyciad Ffioedd Dysgu yr hoffech wneud cais amdano:

☐ Ticiwch y blwch os hoffech wneud cais am yr uchafswm sydd ar gael i chi.

Os hoffech wneud cais am lai na'r uchafswm sydd ar gael ichi, nodwch y swm os gwelwch yn dda £

## Manylion cysylltu

Rydym angen i chi roi enw a chyfeiriad dau gyswllt atodol. Dim ond os na allwn gael gafael arnoch chi fyddwn ni'n cysylltu â nhw, er enghraifft os byddwch yn symud ac yn anghofio rhoi gwybod i ni.

Trwy nodi'r manylion hyn, rydych yn cadarnhau eich bod wedi rhoi gwybod i'ch cysylltiadau atodol am hyn a'u bod yn hapus i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr gysylltu â nhw os oes angen.

| **Cyswllt 1** | **Cyswllt 2** (rhaid i gyswllt 2 fyw mewn cyfeiriad gwahanol i gyswllt 1) |
|---|---|
| Enw(au) cyntaf | Enw(au) cyntaf |
| Cyfenw | Cyfenw |
| Perthynas â chi | Perthynas â chi |
| Cyfeiriad | Cyfeiriad |
| | |
| | |
| | |
| Cod post | Cod post |
| Gwlad | Gwlad |
| Rhif ffôn | Rhif ffôn |

# Adran 5 - myfyrwyr dibynnol ac annibynnol

**Mae'r adran hon yn pennu os ydych yn fyfyriwr dibynnol neu annibynnol. Mae'n bwysig gan ei fod yn sefydlu incwm pwy mae angen i ni ei ystyried o'ch cartref cyn y gallwn gyfrifo eich hawl.**

**a1** A fyddwch chi'n 25 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd? ☐ Byddaf ☐ Na fyddaf

os 'Byddaf', rydych yn fyfyriwr annibynnol, **ewch i adran 6**

**a2** A ydych chi erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar unrhyw adeg cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd? ☐ Do ☐ Naddo

os 'Do', rydych yn fyfyriwr annibynnol, **ewch i adran 6**

**a3** A fyddwch yn gofalu am unigolyn dan 18 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd hon? n t ☐ Byddaf ☐ Na fyddaf

os 'Byddaf', fe allech gael eich ystyried yn fyfyriwr annibynnol, **ewch i adran 6**

Os cawsoch eich ystyried yn unigolyn annibynnol o'r blaen oherwydd eich bod wedi bod yn cynnal eich hun yn ariannol am gyfanswm o 3 blynedd neu ragor cyn dechrau blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, byddwch yn dal i gael eich ystyried yn unigolyn annibynnol.

os yw hyn yn berthnasol i chi **ewch i adran 6**

**b** Ticiwch y blwch perthnasol os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- ☐ Ni ellir dod o hyd i'ch rheini neu nid yw'n rhesymol ymarferol i gysylltu â hwy
- ☐ Rydych wedi ymbellhau yn anghymodlon oddi wrth eich rhieni (nid ydych yn cael unrhyw gyswllt â hwy), ac ni fydd hyn yn newid n
- ☐ Ar unrhyw adeg ers i chi gael eich pen-blwydd yn 16 oed nes i'ch cwrs gychwyn, nid ydych wedi bod yng ngofal cyfreithiol eich rhieni; ac, am dri mis neu fwy, rydych wedi bod yng ngofal cyfreithiol Awdurdod Lleol neu wedi cael llety gan Awdurdod Lleol n
- ☐ Mae eich dau riant wedi marw
- ☐ Rydych wedi gwneud cais blaenorol am gyllid i fyfyrwyr, ac mae'r rhiant a aseswyd am gyfraniad wedi marw
- ☐ Mae'ch rhieni yn byw tu allan i'r Deyrnas Unedig, Gibraltar neu'r Undeb Ewropeaidd a byddai asesiad o'u sefyllfa ariannol yn eu rhoi mewn perygl
- ☐ Mae'ch rheini yn byw tu allan i'r Deyrnas Unedig, Gibraltar neu'r Undeb Ewropeaidd ac ni fyddai'n rhesymol ymarferol na'n bosibl iddynt anfon arian i chi

**Os ydych chi wedi ticio unrhyw rai o'r blychau uchod, byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am dystiolaeth ac yn unol â hyn, efallai y byddwch yn cael eich ystyried yn annibynnol.**

os ydych wedi ticio unrhyw un o'r blychau uchod, **ewch i adran 6**

# Adran 6 - cwestiynau ariannol myfyriwr

Os byddwch yn gadael unrhyw gwestiynau'n wag, ni fyddwn yn gallu prosesu'ch cais. Os na fydd cwestiwn yn berthnasol i chi, nodwch 'Dim' neu 'Amh' fel eich ateb.

## Incwm heb ei ennill

a Mae incwm trethadwy **heb ei ennill** yn cyfeirio at unrhyw incwm y byddwch yn ei gael gan y ffynonellau canlynol:

- llog gros gan fanc neu gymdeithasau adeiladu;
- eiddo, gosodiadau neu rent;
- difidendau neu fuddsoddiadau;
- ymddiriedolaethau neu nawdd;
- unrhyw dâl arall a gafwyd am fynychu'r cwrs.

Amcangyfrifwch gyfanswm yr incwm trethadwy **heb ei ennill,** cyn didyniadau, yr ydych yn disgwyl ei dderbyn yn ystod y flwyddyn academaidd hon. n £

Beth yw ffynhonnell yr incwm hwn?

## Taliadau gan gyflogwr

b1 A fyddwch chi'n gyflogedig yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27? ☐ Byddaf ☐ Na fyddaf — os 'Na' **ewch i c**

b2 A fydd eich cyflogwr yn eich rhyddhau i fynychu'ch cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd hon? ☐ Bydd ☐ Na fydd — os 'Na' **ewch i c**

Os 'Bydd', faint fydd eich cyflogwr yn talu ichi am yr amser y byddwch yn ei dreulio yn mynychu'ch cwrs yn ystod y cyfnod hwn? n £

b3 Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, a fyddwch chi neu'ch cyflogwr yn talu unrhyw arian i gronfa bensiwn ar eich rhan? ☐ Bydd ☐ Na

Os 'Bydd', faint fydd yn ei dalu yn ystod y cyfnod hwn? £

## Plant dibynnol

c Nodwch fanylion unrhyw blant a fydd yn hollol neu'n bennaf ddibynnol arnoch chi yn ariannol yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Dylai incwm y plentyn gynnwys ei incwm o bob ffynhonnell ar ôl talu cyfraniadau treth incwm a nawdd cymdeithasol yn ystod blwyddyn dreth 2024-25. Ni ddylech gynnwys unrhyw incwm gan Fudd-dal Plant neu Gredydau Treth Plant.

| Enw llawn y plentyn | Dyddiad geni<br>Dydd Mis Blwyddyn | Perthynas â chi | Gyda phwy y bydd yn byw? | Incwm a ffynhonnell y plentyn n t |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

# Adran 7 - Cymorth Arbennig

**Os yw un o'r categorïau isod yn berthnasol, gallwch ymgeisio am Gymorth Arbennig.**

a I ymgeisio am Gymorth Arbennig, ticiwch y blwch(blychau) sydd fwyaf perthnasol i chi.
**Dylech anfon tystiolaeth gysylltiedig gyda'ch cais.**

- ☐ Rwyf yn unig riant â phlentyn, neu berson ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn o dan lefel addysg uwch.
- ☐ Mae gennyf bartner sydd hefyd yn fyfyriwr amser llawn, ac mae un neu'r ddau ohonom yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch.
- ☐ Mae gennyf anabledd, ac rwy'n gymwys i gael y Premiwm Anabledd neu'r Premiwm Anabledd Difrifol.
- ☐ Rwy'n fyddar ac rwy'n gymwys i gael Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.
- ☐ Rwyf wedi cael fy nhrin fel rhywun na all weithio am gyfnod di-dor o 28 wythnos o leiaf.
- ☐ Mae gennyf anabledd ac rwy'n gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm.
- ☐ Rwyf yn disgwyl dychwelyd i gwrs ar ôl absenoldeb a ganiatawyd o'r cwrs hwnnw yn sgil salwch neu gyfrifoldeb gofalu sydd bellach wedi dod i ben.
- ☐ Rwyf yn 60 oed neu'n hŷn.
- ☐ Mae gennyf hawl i gael Budd-dal Tai neu elfen tai y Credyd Cynhwysol.
- ☐ Mae gennyf hawl i gael Taliad Annibyniaeth Bersonol.
- ☐ Mae gennyf hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl.
- ☐ Mae gennyf hawl i gael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.
- ☐ Nid yw unrhyw un o'r uchod yn berthnasol i mi.

**! Os nad yw'r un o'r categorïau uchod yn berthnasol i chi, ewch yn syth i Adran 8. Am ragor o wybodaeth am Gymorth Arbennig, ewch i www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

# Adran 8 - Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

**Dim ond os oes gennych unrhyw blant neu oedolion dibynnol ac rydych yn dymuno gwneud cais am gymorth ariannol mewn perthynas â hwy y dylech lenwi'r ffurflen hon.**

a A ydych yn unig riant? ☐ Ydw ☐ Nac ydw — os 'Ydw' **ewch i d**

b1 A ydych dan 25 oed, yn byw gyda phartner ac yn hawlio Grant Gofal Plant neu Lwfans Dysgu i Rieni? ☐ Ydw ☐ Nac ydw — os 'Nac ydw' **ewch i d**

Os atebwch 'Ydw' i b1 a'ch bod yn gadael gofal - **ewch i c** n

b2 A wnaethoch chi gychwyn eich cwrs ar neu wedi 1 Awst 2018? ☐ Ydw ☐ Nac ydw — os 'Ydw' **ewch i d**

c Nodwch gyfanswm yr incwm a amcangyfrifir ar ôl didynnu Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol yn ystod y flwyddyn academaidd hon: n

Ar eich cyfer chi £ ____ Ar gyfer eich partner £ ____

Faint o hyn fydd yn Gredyd Treth Plant neu elfen plant y Credyd Cynhwysol am y flwyddyn academaidd hon?

Chi £ ____ Eich partner £ ____

**! Os nad ydych yn gwneud cais am Grant Gofal Plant ewch i e1**

d A ydych chi, eich gŵr, gwraig neu bartner sifil yn cael, neu'n disgwyl cael:

- elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol; neu
- Ofal Plant Di-dreth gan Gyllid a Thollau EM (HMRC); neu
- Lwfans Gofal Plant gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)? ☐ Ydw/Ydi ☐ Nac ydw/Nac ydi

Os 'Ydw/Ydi', ni allwch gael Grant Gofal Plant a derbyn cefnogaeth gofal plant gan un o'r ffynonellau hyn ar **yr un pryd.** Dim ond os byddwch yn stopio hawlio cefnogaeth gan unrhyw un o'r ffynonellau uchod allwch chi wneud cais am Grant Gofal Plant. n

**Nid ydych yn gymwys i wneud cais am Grant Oedolion Dibynnol ar gyfer:**

- eich oedolyn dibynnol arall os yw ei incwm yn fwy na £3,923 yn ystod y flwyddyn academaidd 2026/27
- eich partner sy'n cyd-fyw â chi os dechreuoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018, a'ch bod dros 25 oed ar ddiwrnod 1af blwyddyn academaidd 1af eich cwrs.

e1 A ydych yn gwneud cais am Grant Oedolion Dibynnol? ☐ Ydw ☐ Nac ydw — os 'Nac ydw' **ewch i f**

e2 Pwy yw eich oedolyn dibynnol? ☐ gŵr gwraig partner sifil neu bartner — **ewch i f**

☐ oedolyn dibynnol arall

# Adran 8 - Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

Parhad

**e3** A fydd incwm eich 'oedolyn dibynnol arall' yn fwy na £3,923 ar gyfer y flwyddyn academaidd hon?

☐ **Bydd** ☐ **Na fydd**

Os 'Bydd', ni chewch y Grant Oedolion Dibynnol – **ewch i f**

**e4** Nodwch incwm eich oedolyn dibynnol yn ystod blwyddyn dreth 2024-25. n t

**Incwm**

| | |
|---|---|
| Holl gyflog ac incwm gwaith hunangyflogedig (yn cynnwys incwm o eiddo) | £ |
| Pob pensiwn, yn cynnwys pensiynau preifat, galwedigaethol a gwladol<br>Os byddwch chi'n derbyn pensiwn cyfandaliad, dim ond y swm a dderbynioch y gwnaethoch dalu treth arno ddylech chi ddatgan. | £ |
| Yr holl incwm trethadwy gros a llog cynilon, buddsoddiadau a difidendau | £ |
| Budd-daliadau gwladol trethadwy | £ |
| Yr holl incwm trethadwy arall | £ |

**Didyniadau**

| | |
|---|---|
| Cyfraniadau at bensiynau preifat a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol | £ |
| Treuliau a ganiateir yr hawlir rhyddhad treth arnynt | £ |

**f** **Dim ond os dechreuoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018 ddylech chi gwblhau'r cwestiwn hwn**

Nodwch fanylion yr ymrwymiadau ariannol sydd gennych cyn cychwyn y cwrs y byddwch chi, eich gŵr, eich partner sifil neu eich partner yn parhau i'w talu yn ystod y flwyddyn academaidd. n t

Nodwch y swm blynyddol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Math | | £ | Math | | £ |
| Math | | £ | Math | | £ |
| Math | | £ | Math | | £ |
| Math | | £ | Math | | £ |

## Section 9 - am eich teulu n

Os ydych yn **fyfyriwr dibynnol**, ewch i **gwestiwn a.** n

Os ydych yn **fyfyriwr dibynnol sydd â phartner**, ewch i **Amodau a Thelerau** ar **dudalennau 19 ac 20** ac yna rhowch y ffurflen hon i'ch partner i lenwi **adran 10.** n

Os ydych yn **fyfyriwr dibynnol sengl**, ewch i **Amodau a Thelerau** ar **dudalennau 18 ac 19**.

a Gyda pha riant ydych chi'n byw fel arfer, neu'n cael mwy o gyswllt ag ef/hi?

☐ Mam ☐ Tad

**neu**

☐ Y Ddau ☐ Amh

b Beth yw statws perthynas presennol y rhiant hwn?

☐ Sengl

☐ Byw gyda phartner

☐ Yn briod/mewn partneriaeth sifil n

☐ Wedi gwahanu

☐ Wedi ysgaru/terfynu partneriaeth sifil

☐ Gweddw/partner sifil goroesol

c A yw eich rhieni wedi ysgaru, gwahanu neu wedi bod mewn partneriaeth sifil sydd wedi cael ei diddymu, ers 1 Medi 2025? n t

☐ **Ydynt** ☐ **Nac ydynt**

Nawr, darllenwch a llofnodwch **Amodau a Thelerau ar dudalennau 19 ac 20** ac yna rhowch y ffurflen hon i'r unigolyn/unigolion a nodir gennych yng 'nghwestiwn a' i lenwi **adran 10**.

**Beth fydd rhaid i chi wneud nesaf**

Darllenwch **Amodau a Thelerau** ar dudalennau **19 ac 20** ac yna rhowch y ffurflen hon i'ch rhiant (rhieni).

**Beth fydd angen i'ch rhiant (rhieni) wneud nesaf**

Dylai'r rhiant (rhieni) rydych fel arfer yn byw gydag ef/hi/hwy lenwi **adran 10**. Os yw'r rhiant a nodir yn 'a' yn briod, mewn partneriaeth sifil neu'n byw gyda phartner, rhaid i'r partner hefyd lenwi **adran 10**.

# Amodau a Thelerau n

## Telerau ac amodau

Mae'r telerau ac amodau ("telerau") hyn a deddfwriaeth berthnasol yn weithredol o ran yr holl gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2026/27.

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi ddarllen y telerau penodol ynghylch cynnyrch cyllid i fyfyrwyr ar gael oherwydd y byddant yn effeithio arnaf os byddaf yn ymgeisio amdanynt ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd hon.

Rwy'n deall y gallai fy nghais am gyllid i fyfyrwyr gael ei ohirio oni bai fy mod yn llofnodi a dyddio'r telerau hyn.

### Contract y Benthyciad

1. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y telerau hyn a bod Canllaw i Amodau a Thelerau ar gael ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/telerau-ac-amodau**
2. Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cyllid i fyfyrwyr, y bydd unrhyw gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn cael ei thynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn.
3. Rwy'n deall fod cyllid i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu i mi gan Weinidogion Cymru (y "Rhoddwr Benthyciadau") sy'n cynnwys unrhyw bersonau yn gweithredu ar eu rhan ac unrhyw amnewidiad(au) dan adran 23(4) Deddf Addysg Uwch 1998 fel y'i diwygiwyd neu amnewidiwyd o bryd i'w gilydd (y "Ddeddf").
4. Rwy'n deall y bydd y telerau hyn, y Ddeddf a'r rheoliadau a wneir dan adran 22 y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw gyllid i fyfyrwyr a roddir mi gan y Rhoddwr Benthyciadau.
5. Rwy'n deall bod "cyllid i fyfyrwyr" yn y telerau hyn yn golygu cefnogaeth ariannol trwy grant(iau) ac/neu fenthyciad(au) a wneir gan y Rhoddwr Benthyciadau dan y rheoliadau.
6. Rwy'n deall bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ("SLC") yn cyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Rhoddwr Benthyciadau.

### Fy Ymrwymiadau

7. Rwy'n deall os ydw i:
   (i) wedi cyrraedd 18 oed; ac
   (ii) fy mod wedi mynd i gytundeb(au) am fenthyciad dan adran 22 y Ddeddf cyn i mi gyrraedd 18 oed,

   fy mod yn cytuno i "ddilysu" unrhyw a phob benthyciad myfyriwr trwy lofnodi'r telerau hyn. Mae hyn yn golygu fy mod yn cadarnhau fy mod wedi mynd i gytundeb(au) gyda'r Rhoddwr Benthyciadau ac yn cytuno i delerau unrhyw gytundeb(au) blaenorol o'r fath. Os ydw i wedi cyrraedd 18 oed ac yn gwrthod "dilysu" unrhyw gytundeb(au) blaenorol, rwy'n deall na fyddaf yn gymwys i gael unrhyw gyllid i fyfyrwyr pellach dan y rheoliadau.
8. Rwy'n cytuno i roi unrhyw wybodaeth i SLC y bydd angen i gefnogi'r cais yma am gyllid i fyfyrwyr ac/neu i gasglu ad-daliad.
9. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC ar unwaith s bydd fy amgylchiadau'n newid mewn unrhyw fodd a allai effeithio ar fy hawl i gyllid i fyfyrwyr. Os na fyddaf yn gwneud hyn deallaf na fyddaf efallai yn cael taliadau pellach a bod posibilrwydd y bydd yn rhaid i mi ad-dalu'r cyllid i fyfyrwyr yr ydw i eisoes wedi'i gael. Rwy'n cytuno o'r dyddiad y byddaf yn cyflwyno fy nghais am gyllid i fyfyrwyr nes bydd fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael ei ad-dalu yn llawn, bod yn rhaid i mi hysbysu SLC am unrhyw newidiadau yn fy manylion personol (gan gynnwys fy rhif Yswiriant Gwladol) a'r manylion cyswllt a roddais.
10. Rwy'n cytuno os byddaf yn cael gordaliad o gyllid i fyfyrwyr, mae angen i mi ei ad-dalu'n llawn ac y gellir casglu unrhyw ordaliad o unrhyw gais pellach am gyllid i fyfyrwyr.
11. Rwy'n cytuno y byddaf yn ad-dalu'r Rhoddwr Benthyciadau unrhyw fenthyciad(au), ynghyd â phob ac unrhyw log, gosbau a thaliadau sy'n berthnasol. Rwy'n deall y bydd yr ad-daliad hwn yn ddyledus gennyf fi i'r Rhoddwr Benthyciadau fel dyled. Os byddaf yn torri unrhyw un o delerau fy menthyciad, rwy'n cytuno i dalu unrhyw gostau a chosbau perthnasol dan y Ddeddf a'r rheoliadau. Rwy'n deall y byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) trwy system dreth y Deyrnas Unedig ("DU") ac/neu y gallaf ad-dalu SLC yn uniongyrchol. Os ydw i'n byw dramor, byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) i SLC yn uniongyrchol.
12. Rwy'n cytuno fod unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi yn unol â'r rheoliadau unwaith y derbynnir fy nghais gan y Rhoddwr Benthyciadau yn gytundeb(au) rhyngof fi a'r Rhoddwr Benthyciadau. Rwy'n deall fy mod yn atebol ar gyfer fy menthyciad(au) ac y codir llog arnaf o daliad cyntaf y benthyciad gan y Rhoddwr Benthyciadau.
13. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC os byddaf yn gadael y DU i fyw tu allan i'r DU neu os am ba bynnag reswm arall y byddaf tu allan i system dreth y DU am fwy na thri mis.

### Camau Cyfreithiol a Deddfau Perthnasol

14. Os bydd galw am unrhyw achos cyfreithiol, rwy'n cytuno mai deddfau Cymru a Lloegr fydd yn weithredol ac y bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Os yw fy nghyfeiriad tu allan i'r DU, bydd deddfau'r rhan o'r DU ble mae fy narparwr addysg wedi ei leoli yn berthnasol a bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Rwy'n cytuno bod gan y Rhoddwr Benthyciadau'r hawl i gymryd camau cyfreithiol yn fy erbyn mewn unrhyw lys arall gydag awdurdod.

### Rhannu Gwybodaeth

15. Os ydw i'n torri'r telerau hyn ac/neu'r rheoliadau, rwy'n cytuno y gall y Rhoddwr Benthyciadau rannu gwybodaeth amdanaf a fy nghyfrif gydag unrhyw drydydd parti yn cynnwys y llywodraeth neu asiantaeth llywodraeth gwlad arall, allai helpu fy lleoli ac/neu helpu gweithredu i adfer unrhyw daliadau sy'n ddyledus.

16. Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol ynghylch unrhyw berson arall yn fy nghais am gyllid i fyfyrwyr, fy mod wedi gwneud hynny gyda'i ganiatâd neu ei chaniatâd.
17. Rwy'n deall y bydd SLC yn prosesu fy nata personol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** a allai gael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd.

### Lwfans i Fyfyrwyr Anabl ("DSA")

Mae'r adran hon yn berthnasol os byddaf yn ymgeisio am DSA yn y flwyddyn academaidd hon.

18. Rwy'n deall bod yn rhaid i unrhyw offer a gaf drwy'r DSA gael ei ddefnyddio ar gyfer fy nghwrs astudio. Lle nad yw fy lwfans DSA wedi'i ddisbyddu, deallaf y gellir ei ddefnyddio i gyfrannu at gost atgyweirio a/neu amnewid offer a dderbyniwyd drwy'r DSA. Rwy'n deall y gall fod angen i mi wneud cyfraniad tuag at gostau atgyweirio pan fyddaf wedi disbyddu fy hawl i DSA, wedi addasu'r offer a/neu wedi torri amodau fy Nghytundeb. Rwyf hefyd yn deall na ellir defnyddio fy hawl DSA tuag at amnewid offer DSA mewn amgylchiadau lle rwyf wedi colli neu gamleoli unrhyw offer DSA y mae fy hawl DSA wedi'i ariannu'n llawn neu'n rhannol.
19. Rwy'n deall os byddaf yn cydsynio i SLC ddarparu ffynhonnell fy offer a chefnogaeth, y gall SLC dalu cyflenwyr unrhyw offer cymeradwy yn uniongyrchol.
20. Rwy'n deall gyda fy nghydsyniad, y gall SLC wneud taliadau i'r ganolfan asesu anghenion ar fy rhan.
21. Rwy'n deall gyda fy nghydsyniad y gall SLC wneud taliad uniongyrchol ar fy rhan i drydydd partïon yn darparu unrhyw wasanaeth neu gefnogaeth gymeradwy arall i mi.
22. Os nad ydw i'n cytuno i SLC dalu cyflenwyr offer, cefnogaeth neu wasanaethau eraill ar fy rhan, rwy'n deall y byddaf yn gyfrifol am ddiwallu costau unrhyw offer, cefnogaeth neu wasanaethau cymeradwy eraill gan ddefnyddio fy lwfans DSA. Mae SLC yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth fy mod wedi derbyn offer, cefnogaeth neu wasanaethau eraill parthed fy DSA.

### Grant Gofal Plant ("CCG")

Mae'r adran hon yn berthnasol os byddaf yn ymgeisio am CCG yn y flwyddyn academaidd hon.

23. Os na fyddaf yn darparu tystiolaeth o'r costau gofal plant o fewn yr amserlenni a bennwyd, deallaf y byddaf o bosibl yn colli fy hawl. Os yw fy nghostau gofal plant yn wahanol i'r amcangyfrifon a ddarparwyd gennyf, gallai taliadau pellach fy CCG gynyddu neu leihau yn unol â hynny. Os nad oes taliadau CCG pellach yn ddyledus i'w talu i mi, gallaf fod yn atebol i ad-dalu unrhyw wahaniaeth.
24. Os na fyddaf yn manteisio ar y gofal plant neu os byddaf yn penderfynu defnyddio darparwr gofal plant nad yw'n gofrestredig neu wedi'i gymeradwyo, deallaf y bydd yn rhaid i mi ad-dalu unrhyw ordaliad.
25. Rwy'n cadarnhau nad ydw i na fy ngŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw wedi dewis derbyn cefnogaeth ar gyfer gofal plant o:
    (i) elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith;
    (ii) elfen gofal plant Credyd Cynhwysol;
    (iii) Gofal Plant Di-dreth; ac/neu
    (iv) Lwfans Gofal Plant Bwrsariaeth y GIG;

    ac rwy'n cytuno i ddweud wrth yr SLC ar unwaith os byddaf fi neu fy ngŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw yn derbyn y gefnogaeth hon. Rwy'n deall y gallai SLC rannu fy nata personol gyda HMRC i wirio a ydw i'n cael cefnogaeth gofal plant.

Cyfeirnod Cwsmer ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU) ____________________

Eich llofnod ✕ ____________________

Dyddiad heddiw
Dydd ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

! Rhaid i'r unigolyn/unigolion perthnasol a nodwyd gennych yn adran 9 lenwi adran 10 yn ogystal â'r datganiad(au) ar dudalen 29.

**Rhowch y ffurflen hon iddo/iddynt nawr.**

**Os ydych yn fyfyriwr annibynnol sy'n sengl, ewch i dudalen 31 nawr i orffen eich cais.**

# Adran 10 - manylion ariannol blwyddyn dreth 2024-25 ar gyfer rhieni a phartneriaid

**Sut i gwblhau'r adran hon**

**Os ydych yn rhiant sengl i'r myfyriwr**

Rhowch eich gwybodaeth fel Unigolyn 1, gadewch Unigolyn 2 yn wag.

**Os oes dau riant yn byw yng nghartref y myfyriwr**

Llenwch yr adran hon gyda gwybodaeth ar gyfer Unigolyn 1 ac Unigolyn 2.

**Os ydych chi'n bartner i fyfyriwr annibynnol**

Rhowch eich gwybodaeth fel Person 1, gadewch Berson 2 yn wag.

## Defnyddiwch y nodiadau ategol i atal unrhyw oedi i'r cais

Ble byddwch yn gweld yr eicon yma, mae'n golygu fod yna wybodaeth atodol yn y Nodiadau Ategol fydd yn eich helpu i gwblhau eich cais cefnogaeth. Gallai hyn fod yn wybodaeth am sut i ateb cwestiwn neu adran neu gyfarwyddyd i anfon dogfennau ategol penodol.

Darllenwch y nodiadau – os na fyddwch chi'n ateb cwestiwn neu adran yn gywir neu os na fyddwch chi'n cynnwys y dogfennau rydym eu hangen, bydd yn achosi oedi gyda chais y myfyriwr.

## Pa fanylion sydd angen i mi ei darparu?

Bydd angen i chi ddarparu:

- eich manylion personol, fel eich enw a chyfeiriad;
- eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) (os oes gennych chi un);
- manylion unrhyw incwm o'r DU neu dramor ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 nad yw Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn gwybod amdanynt;
- manylion unrhyw daliadau pensiwn a wnaethoch ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25; a manylion unrhyw ddibynyddion eraill.

## Pam fod angen i mi ddweud wrthych beth yw fy incwm o flwyddyn dreth 2024-25?

Rydyn ni'n defnyddio ffigurau o'r flwyddyn dreth hon gan mai dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gan CThEF ar eich cyfer.

Rhaid i chi roi gwybod i ni am fanylion eich incwm yn 2024-25 gan na allwn dderbyn symiau o unrhyw flwyddyn dreth arall. Mae hyn yn sicrhau y bydd y myfyriwr (neu fyfyrwyr) yr ydych chi'n cefnogi yn derbyn popeth y mae ganddo/ganddi hawl iddo.

## Beth fydd yn digwydd os yw fy incwm wedi gostwng ers blwyddyn dreth 2024-25?

Os disgwylir neu os yw incwm eich cartref wedi gostwng gan o leiaf 15% ers blwyddyn dreth 2024-25, gallwch wneud cais am asesiad incwm y flwyddyn gyfredol. Mae hyn yn golygu y byddem yn asesu'r myfyriwr ar gyfer cyllid yn seiliedig ar eich incwm amcangyfrifedig ar gyfer blwyddyn dreth 2026-27.

Mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon o hyd ond gallwch ddarparu ffigur incwm mwy cyfredol yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn cael y swm cywir. Darllenwch dudalen 17 y nodiadau ategol i gael gwybodaeth am sut i wneud cais am asesiad incwm y flwyddyn gyfredol.

# Adran 10 - manylion ariannol blwyddyn dreth 2024-25 ar gyfer rhieni a phartneriaid

Parhad

## Gwybodaeth ychwanegol

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a roddwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/e-breifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn cwblhau'r ffurflen hon.

**Os oes gennych gwestiynau pellach gallwch:**
- ddarllen y nodiadau ategol
- droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Rhan A – Eich manylion personol

**Person 1**

Eich Cyfeirnod Cwsmer
(Os oes gennych un)

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Perthynas â'r myfyriwr

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Unrhyw enwau blaenorol a ddefnyddiwyd i'ch adnabod

Rhyw

☐ Gwryw ☐ Benyw

Beth yw'ch statws priodasol presennol?

☐ Priod/mewn partneriaeth sifil
☐ Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi'i diddymu n
☐ Yn byw gyda phartner
☐ Wedi gwahanu n
☐ Gwr neu wraig gweddw/partner sifil sy'n fyw
☐ Sengl

Iaith ohebu ddewisol

☐ Cymraeg ☐ Saesneg

**Person 2**

Eich Cyfeirnod Cwsmer
(Os oes gennych un)

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Perthynas â'r myfyriwr

Teitl

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Unrhyw enwau blaenorol a ddefnyddiwyd i'ch adnabod

Rhyw

☐ Gwryw ☐ Benyw

Beth yw'ch statws priodasol presennol?

☐ Priod/mewn partneriaeth sifil
☐ Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi'i diddymu n
☐ Yn byw gyda phartner
☐ Wedi gwahanu n
☐ Gwr neu wraig gweddw/partner sifil sy'n fyw
☐ Sengl

Iaith ohebu ddewisol

☐ Cymraeg ☐ Saesneg

| Unigolyn 1 | Unigolyn 2 |
|---|---|
| Dyddiad geni ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ | Dyddiad geni ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| Man geni<br>(enw'r dref neu bentref yn union fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu basbort) | Man geni<br>(enw'r dref neu bentref yn union fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu basbort) |
| Cyfeiriad cyswllt | Cyfeiriad cyswllt |
| Rhif ffôn cyswllt | Rhif ffôn cyswllt |
| Cyfeiriad e-bost | Cyfeiriad e-bost |

Ni fydd yn rhaid i chi ddatgelu eich gwybodaeth ariannol i'r myfyriwr.

Os hoffech ei darparu ar wahân, gallwch lawrlwytho Asesiad o Amgylchiadau Ariannol – Blwyddyn Academaidd 2026/27 o: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** a'i dychwelyd atom.

Neu, gallwn anfon y ffurflen atoch os byddwch yn ticio'r blwch hwn:

**Unigolyn 1**

☐ **Anfonwch ffurflen ar wahân ataf**

**Unigolyn 2**

☐ **Anfonwch ffurflen ar wahân ataf**

## Adran 10 - manylion ariannol blwyddyn dreth 2024-25 ar gyfer rhieni a phartneriaid

Parhad

### Rhan B – Rhannu data a chi

**Os oes gennych rif Yswiriant Gwladol (YG)** rhaid i chi ei roi isod. Byddwn yn defnyddio eich rhif YG i wirio eich incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 gyda Chyllid a Thollau EF (CThEF). Mae hyn yn ein galluogi i gael y wybodaeth ariannol fwyaf cywir.
**Os nad oes gennych rif YG** yna bydd angen tystiolaeth lawn o'ch manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25. n

| | Person 1 | Person 2 |
|---|---|---|
| **C1** Oes gennych chi Rif Yswiriant Gwladol? | ☐ **Oes** ☐ **Nac oes - ewch i C6** | ☐ **Oes** ☐ **Nac oes - ewch i C6** |
| Rhowch eich rhif YG: | ☐☐☐☐☐☐☐☐☐ **ewch i C2** | ☐☐☐☐☐☐☐☐☐ **ewch i C2** |
| **C2** A wnaethoch chi lenwi ffurflen dreth hunanasesu yn y DU ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25? | ☐ **Do** - ewch i C3<br>☐ **Naddo** - ewch i C5 | ☐ **Do** - ewch i C3<br>☐ **Naddo** - ewch i C5 |
| **C3** A gawsoch chi unrhyw incwm yn y DU a oedd o dan drothwy treth? | ☐ **Do** - ewch i rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i C4 | ☐ **Do** - ewch i rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i C4 |
| **C4** A gawsoch chi unrhyw incwm ym mlwyddyn dreth 2024-25 o dramor **na** chafodd ei ddatgan i CThEF? | ☐ **Do** - ewch i rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i rhan E | ☐ **Do** - ewch i rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i rhan E |
| **C5** Bydd CThEF yn dweud wrthym am unrhyw incwm a gawsoch o gyflogaeth, budd-daliadau ac/neu bensiynau. A dderbynioch unrhyw incwm arall? | ☐ **Do** - ewch i rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i rhan E | ☐ **Do** - ewch i rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i rhan E |
| **C6** A gawsoch unrhyw incwm yn ystod blwyddyn dreth **2024-25**? | ☐ **Do** - ewch i rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i rhan E | ☐ **Do** - ewch i rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i rhan E |

# Adran 10 - manylion ariannol blwyddyn dreth 2024-25 ar gyfer rhieni a phartneriaid

Parhad

## Rhan C – Incwm arall yn y DU

**Cyfarwyddiadau**

- Rhowch fanylion ariannol y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025.**
- Atebwch 'Do' neu 'Naddo' i gwestiwn C1, os atebwch 'Do' rhowch swm yr incwm.
- Os atebwch 'Naddo' i gwestiwn C1, mae hyn yn golygu eich bod yn dweud wrthym na dderbynioch unrhyw incwm o'r math hwnnw o incwm ym mlwyddyn dreth 2024-25.

! **Er efallai nad ydych wedi datgan incwm i CThEF gan ei fod yn is na'r trothwy trethadwy, mae angen datgan hwn a bydd yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo hawl y myfyriwr.**

| **Manylion ariannol** | **Person 1** | **Person 2** |
|---|---|---|
| **C1** A gawsoch chi unrhyw incwm yn y DU nad yw CThEF yn gwybod amdano? n | ☐ **Do** ☐ **Naddo** - ewch i C2 | ☐ **Do** ☐ **Naddo** - ewch i C2 |
| **a** Cyfanswm incwm o gynilion a buddsoddiadau<br>Rhowch wybod i ni am swm y llog/incwm a gawsoch o gynilion a buddsoddiadau yn ystod blwyddyn dreth 2024-25 yn unig, nid swm gwirioneddol y cynilion neu'r symiau a fuddsoddwyd oedd gennych. | £ | £ |
| **b** Cyfanswm incwm o osod eiddo, tir neu rent<br>Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Rhentu Ystafell. | £ | £ |
| **c** Cyfanswm incwm o enillion achlysurol/llawrydd<br>Mae hyn yn cynnwys unrhyw ffynonellau incwm atodol. | £ | £ |
| **C2** A gawsoch chi unrhyw incwm o dramor nad ydych wedi dweud wrth CThEF amdano eisoes? | ☐ **Do** - ewch i rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i rhan E | ☐ **Do** - ewch i rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i rhan E |

# Adran 10 - manylion ariannol blwyddyn dreth 2024-25 ar gyfer rhieni a phartneriaid

Parhad

## Rhan D – Incwm tramor ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25

### Cyfarwyddiadau

- Rhowch eich manylion ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025.**
- Nodwch eich incwm yn yr arian cyfred y cawsoch eich talu ynddo, nid oes angen i chi ei drosi.

! **Bydd angen i chi anfon tystiolaeth o unrhyw incwm a ddatganwyd yn yr adran hon gan nad yw CThEF yn ymwybodol ohono.**

| Manylion ariannol | Person 1 | Person 2 |
|---|---|---|
| **C1** A gawsoch chi unrhyw incwm o dramor o'r ffynonellau canlynol: n | ☐ **Naddo** - ewch i rhan E<br>☐ **Do** | ☐ **Naddo** - ewch i rhan E<br>☐ **Do** |
| **a** Incwm o gyflogaeth neu hunangyflogaeth<br>Os ydych eisoes wedi rhoi gwybod i CThEF am yr incwm hwn, ni ddylech ei nodi yma. | | |
| **b** Incwm o fudd-daliadau trethadwy'r wladwriaeth | | |
| **c** Incwm o bensiwn(au) galwedigaethol, preifat<br>Os byddwch chi'n derbyn pensiwn cyfandaliad, dim ond y swm a dderbynioch y gwnaethoch dalu treth arno ddylech chi ddatgan. | | |
| **d** Unrhyw incwm arall<br>Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys incwm o:<br>• cynilion a buddsoddiadau;<br>• gosod eiddo, tir neu rent; neu<br>• enillion llawrydd achlysurol.<br>Nid yw hon yn rhestr gyflawn, efallai y bydd gennych incwm arall. | | |
| **e** Cyfanswm incwm tramor nad yw CThEF yn gwybod amdano?<br>Rhowch gyfanswm y symiau a ddatganwyd yng nghwestiynau a i d i roi cyfanswm. | | |
| **C2** Os na thalwyd eich incwm yn C1 mewn punnoedd sterling, ym mha arian cyfred y cafodd ei dalu? | | |

# Adran 10 - manylion ariannol blwyddyn dreth 2024-25 ar gyfer rhieni a phartneriaid

Parhad

## Rhan E – Didyniadau incwm

**Cyfarwyddiadau**

- Rhowch eich manylion ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2024 i 5 Ebrill 2025.**
- Atebwch 'Do' neu 'Naddo' i gwestiynau C1 ac C2, os atebwch 'Do' rhowch y swm.

**Bydd unrhyw ddidyniadau a ddatgenir yn adran 5 yn lleihau ffigur incwm eich cartref wrth gyfrifo hawl y myfyriwr(myfyrwyr) (cyn belled ag y darperir tystiolaeth).**

| | Person 1 | Person 2 |
|---|---|---|
| **C1** A wnaethoch chi dalu unrhyw gyfraniadau pensiwn preifat? n | ☐ **Do** ☐ **Naddo** - ewch i C2 | ☐ **Do** ☐ **Naddo** - ewch i C2 |
| Cyfanswm a daloch | £ | £ |
| **C2** A wnaethoch chi dalu unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)? n | ☐ **Do** ☐ **Naddo** - ewch i rhan F | ☐ **Do** ☐ **Naddo** - ewch i rhan F |
| Cyfanswm a daloch | £ | £ |

## Rhan F – Eich dibynyddion – nad ydynt mewn addysg bellach nac addysg uwch incwmv

Nodwch unrhyw blant a fydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf gyfrifol arnoch chi'n ariannol.

**C1 Plant dibynnol nad ydynt mewn addysg bellach neu uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27** n

Peidiwch â chynnwys unrhyw ddibynyddion mewn addysg bellach neu addysg uwch yn C1. Dylid rhoi eu manylion yn C2. Cynhwyswch incwm heb ei ennill ar gyfer pob dibynnydd.

Os oes gennych chi fwy na 2 o blant ac angen mwy o le, defnyddiwch yr adran nodiadau ychwanegol ar dudalen 30.

| | |
|---|---|
| Enw Llawn | Enw Llawn |
| | |
| Dyddiad geni (DDMMBBBB) | Dyddiad geni (DDMMBBBB) |
| ☐☐☐☐☐☐☐☐ | ☐☐☐☐☐☐☐☐ |
| Incwm ar gyfer y flwyddyn | Incwm ar gyfer y flwyddyn |
| | |

# Adran 10 - manylion ariannol blwyddyn dreth 2024-25 ar gyfer rhieni a phartneriaid

Parhad

**C2 Plant dibynnol mewn addysg bellach neu uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27**

**Peidiwch** â chynnwys y myfyriwr wrth gwblhau'r cwestiwn hwn.

Os mai'r myfyriwr yw eich partner, cynhwyswch unrhyw blant a enwyd ganddynt yn eu cais am gyllid i fyfyrwyr os yw'r plant wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr.

Os oes gennych chi fwy na 2 o blant ac angen mwy o le, defnyddiwch yr adran nodiadau ychwanegol ar dudalen 30.

Enw llawn

Dyddiad geni (DDMMBBBB)

Ysgol, coleg neu brifysgol

Cwrs

A yw'n derbyn cymorth ariannol? Os felly, gan ba awdurdod neu sefydliad?

A ydych chi eisiau cefnogi cais y myfyriwr hwn am gyllid i fyfyrwyr?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Enw llawn

Dyddiad geni (DDMMBBBB)

Ysgol, coleg neu brifysgol

Cwrs

A yw'n derbyn cymorth ariannol? Os felly, gan ba awdurdod neu sefydliad?

A ydych chi eisiau cefnogi cais y myfyriwr hwn am gyllid i fyfyrwyr?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

# Datganiad ar gyfer rhieni neu bartneriaid

Cyn llofnodi, dylech ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd yn y nodiadau a anfonwyd gyda'r ffurflen hon.

Efallai bydd y cais hwn am gymorth ariannol yn cael ei ohirio oni bai eich bod yn llofnodi a dyddio'r datganiad hwn.

- Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi'i darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall y gellir fy erlyn a dod a'r cymorth ariannol a roddir i'r myfyriwr neu'r myfyrwyr a gefnogir gennyf i ben. Efallai bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir y canfyddir ei bod yn faterol anghywir yn cael ei hystyried fel tystiolaeth o ymgais i gamarwain y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. O dan amgylchiadau o'r fath, efallai bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn hysbysu'r awdurdodau am y mater ac yn terfynu cymhwystra'r myfyriwr i gael cyllid myfyrwyr.
- Rwy'n cytuno y byddaf yn darparu unrhyw wybodaeth bellach sy'n gysylltiedig â chais yr ymgeisydd am gymorth ariannol y byddir yn gofyn amdani, ac rydw i'n cytuno i ddarparu manylion yn syth os bydd fy amgylchiadau yn newid mewn unrhyw ffordd a allai effeithio ar y cais hwn am gymorth ariannol.

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod

✕

Dyddiad heddiw (Dydd / Mis / Blwyddyn)

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod

✕

Dyddiad heddiw (Dydd / Mis / Blwyddyn)

**Dyddiad Cau**

I sicrhau fod y myfyriwr yn cael y taliad cyntaf ar ddechrau'r tymor, rhaid dychwelyd y ffurflen hon gyda'r holl dystiolaeth y bydd ei hangen arnom erbyn **26 Mehefin 2026.**

Sylwch os gwelwch yn dda, byddwn yn gwneud ein gorau i brosesu'r cais cyn gynted â phosibl, ond os bydd y dyddiad cau wedi pasio, efallai na fydd eich taliad cyntaf yn barod ar gyfer dechrau'r tymor.

! **Dylech ddychwelyd y ffurflen hon i'r myfyriwr nawr.**

# Nodiadau ychwanegol

Os ydych yn darparu gwybodaeth ychwanegol, nodwch yn glir yr adran a rhif y cwestiwn mae'r wybodaeth yn ymwneud â hwy.

# Rhestr wirio

Cyn dychwelyd y ffurflen hon, a fyddech gystal â sicrhau eich bod gwneud y canlynol:

- ☐ Ateb yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i chi yn llawn.
- ☐ Cynnwys yr holl eitemau tystiolaeth.
- ☐ Llenwi'r adran Cais am Fenthyciad os ydych yn gwneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth, Benthyciad Ffioedd Dysgu neu'r ddau.
- ☐ Gofyn i'ch rhiant (rhieni) neu'ch partner lenwi adran 10 os ydych yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn seiliedig ar incwm eich cartref.
- ☐ Llofnodi a dyddio Amodau a Thelerau ar dudalennau 19 ac 20.
- ☐ Sicrhau bod eich rhiant (rhieni) neu eich partner wedi llenwi eu datganiad ar dudalen 29 (os yn berthnasol).

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Efallai bydd angen o leiaf 6 wythnos i asesu eich cais a'r holl dystiolaeth berthnasol. Yn dilyn hynny, byddwn yn anfon llythyr atoch a fydd yn nodi faint o gymorth ariannol a gewch.

**Cofiwch dalu'r tâl post cywir.**

**Rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen wedi ei chwblhau at:** **Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

# Rhoi caniatâd i rywun gysylltu â ni ar eich rhan

Os hoffech roi caniatâd i berson enwebedig siarad â ni am eich cyfrif, gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i sefydlu Caniatâd i Rannu (CTS) ar eu cyfer.
Gallai person enwebedig fod yn:
berson unigol fel eich rhiant, rhiant maeth, brawd neu chwaer neu bartner; neu
cynghorydd prifysgol/coleg neu gynghorydd trydydd parti. Gallai cynghorydd trydydd parti fod yn weithiwr cymdeithasol, cynghorydd personol neu gynghorydd elusen (o sefydliadau fel WeBelong neu Become).

## Beth sydd angen i'ch unigolyn enwebedig ei wybod

Pan fydd yn ein ffonio, bydd angen i'r unigolyn basio ein dilysiad diogelwch gan ddefnyddio'r manylion a roddwch ar y ffurflen hon. Bydd yn gallu trafod a gofyn am:

- unrhyw wybodaeth am eich cyfrif, ac eithrio eich manylion banc
- statws eich cais ac unrhyw dystiolaeth sydd ei hangen arnom
- gohebiaeth a anfonwyd atoch neu ffurflenni cais ar eich rhan

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

**Adran A** - Cwblhewch hwn os ydych am roi caniatâd i berson unigol.
**Adran B** - Cwblhewch hwn os ydych am roi caniatâd i gynghorydd prifysgol/coleg neu gynghorydd trydydd parti.
Gallwch sefydlu CTS ar gyfer unigolyn unigol a chynghorydd gan ddefnyddio'r un cod mynediad.
Os caiff unrhyw fanylion ar y ffurflen hon eu hepgor, ni allwn sefydlu CTS.
Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, a fyddech cystal â'i dychwelyd gyda'ch ffurflen gais.

## A oes ffordd i ganiatáu i drydydd parti ddiweddaru fy nghyfrif?

Gallwch roi Atwrneiaeth (PoA) i drydydd parti. Mae Atwrneiaeth yn ddogfen swyddogol lle gallwch benodi atwrnai sy'n caniatáu iddo ryddhau neu ddiweddaru gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyfrif. Rhaid i Atwrneiaeth gynnwys y cyfnod penodol y gall y trydydd parti weithredu fel atwrnai ar ei gyfer, a'r tasgau penodol y gall eu cyflawni. Gallwch ddal i lenwi'r adrannau o'r ffurflen isod ac anfon copi o'r ddogfen Atwrneiaeth atom. Fel uchod, rhaid i'r person sy'n dal Atwrneiaeth basio ein dilysiad diogelwch.

## Rwyf wedi newid fy meddwl ac nid wyf am roi caniatâd mwyach. Beth ddylwn i wneud?

Gallwch ddileu eich caniatâd ar unrhyw adeg. I wneud hyn, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** neu ysgrifennwch atom yn:
**Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig**
**10 Clyde Place**
**Glasgow**
**G5 8DF**
Unwaith y byddwch yn dweud wrthym eich bod am ddileu eich caniatâd, ni fydd eich person enwebedig yn gallu cyrchu gwybodaeth eich cyfrif.

## Adran A - Caniatâd i berson unigol

Rhowch fanylion y person unigol. Pan fydd yn ffonio, bydd angen cadarnhau eich enw llawn, eich cyfeirnod cwsmer a'r manylion hyn yr ydych yn eu darparu cyn cyrchu'ch cyfrif.

| | |
|---|---|
| Enw cyntaf | |
| Cyfenw | |
| Dyddiad geni (DDMMBBBB) | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| Perthynas â chi | |
| Cod mynediad/cyfrinair (dylai hyn fod yn wahanol i\\'r cyfrinair a ddefnyddiwch i fewngofnodi i'ch cyfrif) | |
| Cyfeiriad cyswllt | |
| Cod Post | |
| Dyddiad rydych am gael caniatâd i fod yn weithredol ohono | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| Dyddiad yr ydych am gael caniatâd i ddod i ben (gellir diweddaru/estyn hwn unrhyw bryd) | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |

## Adran B - Caniatâd i gynghorydd prifysgol neu drydydd parti

Rhowch fanylion y brifysgol neu gynghorydd trydydd parti. Pan fydd yn ffonio, bydd angen cadarnhau eich enw llawn, eich cyfeirnod cwsmer a'r manylion hyn yr ydych yn eu darparu cyn cyrchu'ch cyfrif.

**Manylion cynghorydd**

Enw cyntaf y cynghorydd

Cyfenw'r cynghorydd

Enw sefydliad

Adran

Teitl swydd

**Manylion mynediad**

Cod mynediad/cyfrinair
(dylai hyn fod yn wahanol i\\'r cyfrinair a ddefnyddiwch i fewngofnodi i'ch cyfrif)

Dyddiad rydych am gael caniatâd i fod yn weithredol ohono

☐☐/☐☐/☐☐☐☐

Dyddiad yr ydych am gael caniatâd i ddod i ben (gellir diweddaru/estyn hwn unrhyw bryd).

☐☐/☐☐/☐☐☐☐

## Datganiad y Myfyriwr

Rwy'n cytuno y gall y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig gyfnewid gwybodaeth am fy nghyfrif cyllid myfyrwyr gyda'r person a enwir.

Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol parthed trydydd parti, rwyf wedi eu hysbysu o hyn.

Eich cyfeirnod cwsmer

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod (mewn inc)

**X**

Dyddiad heddiw (DDMMBBBB)

☐☐/☐☐/☐☐☐☐